

PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2016

- YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D R Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Alun M. Mummery (Is-gadeirydd)
- Y Cynghorwyr John Griffith, W.T. Hughes, Carwyn Jones, R.LI. Jones, Richard O. Jones, Dylan Rees a Dafydd R. Thomas.
- Mr. Keith Roberts (yn cynrychioli'r Eglwys Gatholig).
- WRTH LAW:** Prif Weithredwr,
Prif Weithredwr Cynorthwyol (AM),
Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer Eitem 5),
Swyddog Effaith ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol (AD) (ar gyfer Eitem 4),
Rheolwr Grantiau (JW) (ar gyfer Eitem 5),
Swyddog Sgriwtini (GWR),
Swyddog Pwyllgor (MEH).
- HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ieuan Williams – Arweinydd y Cyngor.
Y Cynghorydd Alwyn Rowlands – Aelod Portffolio (Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith, Trawsnewid Perfformiad, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol) (ar gyfer Eitem 4).
- Mr. J. Lee MBE – Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr – Cymunedau'n Gyntaf Môn;
Ms. Rita Lyon – Rheolwr Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf Môn (ar gyfer Eitem 5).
- YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd A. M. Jones – Aelod Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol).

Roedd Mr. Keith Roberts (yn cynrychioli'r Eglwys Gatholig) eisiau mynegi ei gydymdeimlad â theulu Mr. Geraint Elis, cyn-Bennaeth Addysg a fu farw'n ddiweddar. Roedd Aelodau a Swyddogion y Pwyllgor hefyd yn dymuno mynegi eu cydymdeimlad â theulu Mr. Elis.

1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror, 2016 yn gywir.

4 DOGFEN PARTNERIAETH POLISI A RÔL SGRIWTINI YN MONITRO'R PARTNERIAETHAU

Cyflwynwyd – adroddiad ar y cyd gan y Swyddog Sgriwtini a'r Swyddog Effaith ar lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Dyweddodd yr Aelod Portffolio (Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith, Trawsnewid Perfformiad, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol) fod yr adroddiad hwn yn nodi pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gan ei fod yn rhan annatod o arferion gweithio Awdurdodau Lleol; mae'n rhoi gwasanaethau gwell i gymunedau lleol. Nododd bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Mawrth 2016 wedi cymeradwyo'r Ddogfen Bolisi fel sylfaen gadarn ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

Dyweddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod gwaith wedi cael ei wneud yn ddiweddar i lunio rhestr o bartneriaethau rhwng y Cyngor a sefydliadau eraill yn y sectorau preifat, cyhoeddus neu wirfoddol. Hyd yma mae dros 200 o bartneriaethau posib wedi cael eu nodi. Bydd gwaith yn awr yn cael ei wneud i egluro rôl a gwerth ychwanegol y partneriaethau posib a nodwyd.

Rhoddodd y Swyddog Sgriwtini a'r Swyddog Effaith ar lechyd a Gofal Cymdeithasol gyflwyniad byr i'r Pwyllgor ar y Polisi Partneriaeth a rôl y Pwyllgor Sgriwtini yn monitro'r Partneriaethau. Dywedodd y Swyddog Effaith ar lechyd a Gofal Cymdeithasol fod y Polisi Partneriaeth yn crynhoi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ac yn ychwanegu at y datganiadau partneriaeth unigol sydd eisoes yn bodoli, er enghraifft Compact Ynys Môn (cytundeb partneriaeth gyda'r Sector Gwirfoddol) a'r Siarter Cymunedol ar y Cyd gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar yr Ynys. Mae'r Polisi (ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad) yn canolbwyntio ar bartneriaethau lle mae'r Cyngor yn dewis gweithio gyda sefydliadau eraill yn y sector preifat, cyhoeddus neu wirfoddol. Dywedodd hefyd fod gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu rôl i adolygu trefniadau rheoli risg yr Awdurdod. Bydd y Pwyllgor hwnnw'n canolbwyntio ar gael sicrwydd bod partneriaethau allweddol yn rheoli risg yn ddigonol ond nid yw ei rôl yn cynnwys adolygu cyfraniad a chanlyniadau partneriaethau, am fod hynny'n rhan o gylich gwaith Aelodau Sgriwtini.

Cyfeiriodd y swyddog ymhellach at y rhesymau pam fod gweithio mewn partneriaeth o fudd i'r Cyngor a chymunedau Ynys Môn a hefyd at y meini prawf y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i ddewis partneriaethau ac a amlygwyd yn yr adroddiad.

Adroddodd y Swyddog Sgriwtini fod gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio rôl bwysig i'w chwarae i sicrhau bod lefel briodol o ymgysylltu democrataidd gyda phartneriaethau ac i sicrhau bod y gwaith a'r perfformiad yn gyson â blaenoriaethau allweddol y Cyngor ac anghenion y cymunedau lleol ac yn ymateb iddynt. Wrth gyflawni ei rôl mae gan y Pwyllgor Sgriwtini nifer o feysydd posib y gallai eu hystyried, gan gynnwys:-

- Sgriwtinieiddio trefniadau llywodraethu;

- Sgrwtineiddio cyfraniad y Cyngor;
- Gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol y bartneriaeth;
- Sicrhau ymgysylltu â'r cyhoedd a strategaethau a phartneriaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Holwyd ynghylch y perygl y byddai gwasanaethau a gynigir gan y sefydliadau partner a nodwyd yn cael eu dyblygu. Ymatebodd y Swyddogion y bydd pob sefydliad partner yn cael ei adolygu a'i werthuso er mwyn asesu ei werth am arian, ei werth ychwanegol ac unrhyw ddyblygu posib. Bydd yr ymarfer hwn yn fodd i swyddogion gael rhestr gyflawn o sefydliadau partneriaeth a fydd yn gweithio gyda'r Cyngor mewn partneriaeth yn y dyfodol;
- Goynnwyd a fydd 'asesiad risg' yn cael ei gynnal i werthuso gwaith partneriaeth gyda sefydliadau. Ymatebodd y Swyddogion y bydd rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cynnwys adolygu trefniadau rheoli risg sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth.
- Holwyd ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Tref / Cymuned a Chynghrair Gymdeithasol leol a sefydlwyd i gymryd drosodd y gwaith o redeg gwasanaethau anstatudol a ddarperir gan y Cyngor o bosib. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol y bydd y Cyngor Sir yn ymgynghori maes o law efo'r Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned a rhanddeiliaid ynghylch y Polisi Partneriaeth a'r 'pecyn cymorth' cysylltiedig. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig bod Aelodau Lleol yn rhoi gwybod i Swyddogion am unrhyw gynghrair gymdeithasol leol neu unrhyw grŵp sy'n gweithio o fewn eu cymuned. Bydd hyn yn caniatáu i Swyddogion gysylltu â sefydliadau o'r fath i asesu'r posibilrwydd o weithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor. Dywedodd Arweinydd y Cyngor y dylid ymchwilio ymhellach i waith partneriaeth a'r posibilrwydd bod cymunedau lleol yn cymryd gwasanaethau diwylliannol drosodd; dylid ystyried cysylltu'n gyntaf gyda Chynghorau Tref / Cymuned ac wedyn gyda sefydliadau lleol.

PENDERFYNWYD cadarnhau:-

- **Bod y Ddogfen Polisi Partneriaeth yn sylfaen gadarn i'r Cyngor ar gyfer gweithio mewn partneriaeth;**
- **Bod y dasg o sgrwtineiddio partneriaethau'n cael ei chyflawni yn y lle cyntaf trwy ei hymgorffori ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor hwn;**
- **Gwneud trefniadau i adolygu effeithiolrwydd y dull hwn o sgrwtineiddio partneriaethau tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol (yr adolygiad i gynnwys ystyriaeth o rinweddau model panel canlyniad Sgrwtini).**

GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.

5 CYMUNEDAU'N GYNTAF

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf. i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai ar gynnydd y Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn 2015/16.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn ffrwd waith allweddol sy'n cyflawni blaenoriaethau strategol y Cyngor fel y cawsant eu nodi yng Nghynllun Corfforaethol 2014/17 ac sy'n canolbwyntio ar adfywio cymunedau a datblygu'r economi, ynghyd â chynyddu opsiynau tai a lleihau tlodi. Nododd mai'r Awdurdod yw'r Corff Cyflawni Arweiniol a bod y ffynonellau cyllido yn cynnwys cyllid craidd, cyllid y Rhaglen Esgyn a chyllid Cymunedau ar gyfer Gwaith. Sefydliad Cyflawni yw Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf.

Mae Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf, fel cwmni cyfyngedig trwy warant ac elusen, yn gallu sicrhau cyllid allanol i gefnogi darparu gwasanaethau Cymunedau'n Gyntaf yn yr ardal, sef cyllid nad yw'r Awdurdod, fel corff cyhoeddus, yn gymwys i wneud cais amdano o bosib. Mae'r Academi Alwedigaethol Gymunedol, sy'n darparu hyfforddiant achrededig i bobl 14-62 oed, yn targedu'r rhai sydd leiaf tebygol o fynychu darpariaethau prif ffrwd mewn colegau ac yn ddiweddar mae wedi ennill y wobwr am y Fenter Gymdeithasol Orau yng Ngwobrau'r Sefydliad Tai Siartredig.

Cyflwynwyd adroddiad manwl gan y Rheolwr Clwstwr ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf Môn ar weithgareddau'r sefydliad. Bu cynnydd yn nifer y staff a gyflogir ar hyn o bryd gan y sefydliad ac yn yr arian a sicrhawyd ar gyfer y rhaglen. Cyfeiriodd at yr Academi Alwedigaethol Gymunedol a atgyfnerthwyd yn ddiweddar yn sgil derbyn cyllid dan y Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Roedd £90,000 wedi'i ddyfarnu dros 2 flynedd i brynu peiriant torri gwair masnachol mawr a fydd yn golygu y gall CG Môn dendro am gontractau mwy o faint a chynhyrchu ffrwd incwm gynaliadwy. Prynwyd 2 fan hefyd sy'n uwchraddio'r fflyd o gerbydau. Prynwyd cerbyd cloddio bach i'w ddefnyddio gan hyfforddeion a fydd yn cynorthwyo i arwain hyfforddiant yng Ngholeg Menai ar sut i ddefnyddio cerbydau cloddio mawr. Ariannwyd hyn drwy Horizon.

Mae Cymunedau'n Gyntaf Môn yn gweithio'n agos iawn gyda chyflogwyr i sicrhau y gellir cyfatebu'r swyddi gwag sydd ganddynt gyda'r bobl sy'n cymryd rhan yn yr Academi. Nododd bod 102 o bobl wedi cael gwaith trwy'r Academi hyd yma.

Amlinellodd y Rheolwr Grant faint o arian a sicrhawyd gan Cymunedau'n Gyntaf Môn a chyfeiriodd at Atodiadau 1 a 5 a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad ac a oedd yn tynnu sylw at y cyllid allanol y llwyddwyd i'w sicrhau.

Roedd Cadeirydd Cymunedau'n Gyntaf Môn, Mr. J. Lee MBE, yn dymuno mynegi ei werthfawrogiad o'r gwaith a wnaed gan staff CG Môn a pha mor falch ydoedd o lwyddiant y sefydliad.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad a chodwyd y prif faterion a ganlyn: -

- Llongyfarchwyd Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf. gan Aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith a chanmolwyd y cyfleusterau a gynigir i helpu pobl mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Gofynnwyd a oes modd helpu ardaloedd eraill nad ydynt yn rhan o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Môn. Ymatebodd y Rheolwr Clwstwr ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf Môn fod cyllid Ewropeaidd wedi'i sicrhau i benodi Swyddog i weithio mewn wardiau sydd y tu allan i ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Môn.
- Gofynnwyd a fydd CG Môn yn parhau i blannu blodau i wella delwedd Canol Tref Caergybi a'r cyffiniau. Ymatebodd y Rheolwr Clwstwr ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf Môn bod rhai pobl ifanc wedi bod yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn ddiweddar tuag at staff pan oeddent wrthi'n paratoi ac yn plannu arddangosiadau blodau yng Nghaergybi. Nododd fod y mater wedi cael ei adrodd i Heddlu Gogledd Cymru ar sawl achlysur; cafwyd ar ddeall mai dim ond un person ifanc 15 oed y siaradwyd ag ef. Dywedodd nad oedd yn fodlon i'w staff gael eu bygwth ac y bydd rhaid atal y gwasanaeth.

Yn dilyn trafodaethau pellach **PENDERFYNWYD:** -

- **Llongyfarch Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf am eu gwaith a'u llwyddiant sy'n enghraifft o weithio'n dda mewn partneriaeth gyda'r Cyngor;**
- **Nodi llwyddiant Cymunedau'n Gyntaf Môn yn helpu 102 o bobl i ddod o hyd i waith drwy'r Academi Alwedigaethol Gymunedol;**
- **Bod llythyr yn cael ei anfon at Heddlu Gogledd Cymru yn mynegi pryderon y Pwyllgor mewn perthynas â digwyddiadau diweddar o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bobl ifanc a bygythiadau i staff CG Môn pan fônt yn paratoi a phlannu arddangosiadau blodau yn ardal Caergybi.**

GWEITHREDU: Y Swyddog Sgrwtini i ysgrifennu at Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol a nodir uchod.

6 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD/IS-GADEIRYDD

Ni chafwyd diweddariad gan y Cadeirydd/Is-gadeirydd.

7 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Sgrwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Mai, 2016.

Roedd rhai Aelodau o'r Pwyllgor yn anfodlon bod trefniadau wedi eu gwneud i alw cyfarfod ar ddydd Gwener, 13 Mai 2016 i drafod yr Ymgynghoriad ynghylch Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr. Dywedwyd bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd wedi cytuno na ddylid cynnal cyfarfodydd ar ddiwedd yr wythnos.

Yn dilyn trafodaethau CYTUNWYD y gwneir pob ymdrech i aildrefnu'r cyfarfod ar gyfer dechrau'r wythnos ganlynol, ond os nad oes modd cynnal cyfarfod bryd hynny oherwydd nad yw'r Swyddogion perthnasol ar gael, fod y cyfarfod yn dechrau am 3.30pm ar 13 Mai 2016.

PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith hyd at fis Mai, 2016.

GWEITHREDU: Y Swyddog Sgriwtini i gydgyssylltu â'r Swyddogion perthnasol mewn perthynas â'r uchod.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.10 o'r gloch y.p.

**CYNGHORYDD D.R. HUGHES
CADEIRYDD**